Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion o gyfarfod y Cyngor Llawn Nos Iau 25 o Orffennaf 2024 Yng nghanolfan Gymunedol Glasinfryn am 7.00

1. **Presennol: /Present**
   Cyng I Ellis Cadeirydd; Cyng L A James; Cyng E Roberts; Cyng J Pierce; Cyng A Joyce; Cyng D Jones-Morris; Cyng C Owen Y Clerc a Sioned Jones Cyfieithydd
2. **Ymddiheuriadau: Apologies**
   Cyng J Griffiths; Cyng B Jones
   Cyn cychwyn y cyfarfod diolchwyd i'r aelodau am eu parodrwydd i newid noson y cyfarfod oherwydd triniaeth ysbyty y Clerc ar y 11eg o'r mis Croesawyd ef i'r cyfarfod heno dymuno adferiad iechyd llawn iddo
3. **Datgan buddiant / Declaration of interest**
   Cyng A Joyce a'r Cyng L A James yn datgan ei bod yn ymddiriedolwyr o Ganolfan Gymunedol Penrhosgarnedd
4. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**
   Esbonwyd fod Cais wedi ei dderbyn gan Cefin Roberts yn holi os oedd yn bosib i'r Grwp oedd yn ei gynrychioli o'n blaenau Mis Mehefin ' actif Pentir active' wneud defnydd o eitemau ar y Panel Hanesyddol sy'n Pentir yntau oedd hawlfraint arnynt.
   Clerc i holi ond dim gwrthwynebiad. Trafodwyd yr angen am lythyr o'r Cyngor fel llythyr o gefnogaeth os bydd yr adeilad yn dod ar y farchnad.
   Holodd y Cyng A Joyce pam nad oedd ei sylwadau ynglyn a'r drwydded arfaethedig ynglyn a maes parcio Canolfan Penrhosgarnedd wedi eu cofnodi.
   Esbonwyd iddo gael esboniad ar lafar yng nghyfarfod Mis Mehefin ag mae yr un oedd yr esboniad y tro hwn 'Gan ei fod wedi datgan buddiant – ymddiriedolwr/trysorydd y ganolfan - ag wedi gadael yr ystafell pan drafodwyd y Drwydded yng nghyfarfod Mis Mai nid oedd yn briodol iddo siarad ar y mater gan bod ei fuddiant yn fuddiant rhagfarnnol
   Nodwyd fod y Cadeirydd wedi ymweld a'r Cyng Menna Baines oedd wedi ymddiswyddo fel Cyng Cymunedol i'w holi os byddai yn fodlon ail-ystyried. 'Doedd dim troi arni ynglyn a'i phenderfyniad ond diolchodd iddi am ei chyfraniad ag ychwanegu y byddai croeso iddi ymweld a'n cyfarfodydd fel sylwebydd yn sgil ei rol fel Aelod Lleol
   Diolchwyd i'r cadeirydd am ei ymdrech
5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 13eg o Fehefin / June 2024**
   Cynnigwyd eu cywirdeb gan y Cyng J Pierce gafodd ei eilio gan y Cyng L A James
   Derbynwyd gyda mwyafrif
6. **Materion ariannol / Financial Issues**
   i. **Mantolen ariannol / Financial report**
      'Roedd mantolen ariannol gyfredol wedi ei dosbarthu yn dangos £22,007.66 yn y cyfrif cyfredol a £41,181.77 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £200.39 mewn llog
   ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/06/2024**
      Cofnodion Mehefin oedd wedi eu derbyn fel cofnodion cywir y noson cynt 24/07/24 oedd yn y pecyn.

Nodwyd wrth eu archwylio bod 2 beiriant diffib wedi gorfod adrodd yn ol arnynt oherwydd diffygion
Peiriant Treborth bellach wedi cael batris newydd tra bod un Caerhun wedi gorfod ei newid dros dro a'i anfon i ffwrdd i'w drwsio
Cynnig i'r Clerc fod sawl cynghorydd yn hapus i wneud yr archwyliadau yn hytrach na bod rhaid iddo fo fynd o amgylch bob un
**Clerc i gysylltu a'r aelodau pan gaiff gais i'w archwylio ar e-bost**

**Cyfarfod IBC 24/07/24**
Cynhalwyd cyfarfod neithiwr i drafod yn benodol y polisiau sydd angen ei archwylio/addasu os bydd angen a'i mabwysiadu ar gyfer 2024-25 **Gweler dan eitem 8 Polisiau**
**Argymhellwyd talu y taliadau oedd angen sylw a cafodd hynny ei gadarnhau**

**7. Cynllunio / Planning**
C24/0532/25/LL Lleoliad / Location: Land At Pentir Substation, Pentir, Bangor, LL57 4ED
Bwriad / Proposal: Cyfleuster Storio Ynni Arfaethedig, mynediad cysylltiedig, tirweddu, seilwaith, offer ategol, gyda chynhwysedd mewnforio ac allforio cysylltiad grid o 57MWac**.**
**Dim Gwrthwynebiad**

C24/0511/25/DT Lleoliad / Location: Mon Awelon, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2NJ
Bwriad / Proposal: Estyniad unllawr arfaethedig
Trafodwyd yr achos yma mewn manylder oherwydd fod gwrthwynebydd wedi cysylltu a'r Clerc yn datgan ei phryder am ei eiddo. Cytunwyd mae mater sifil fyddai hynny ag nad oedd rhesymau amlwg fyddai'n groes i bolisiau cynllunio a felly rhaid oedd datgan **Dim sylw pellach**

C24/0529/18/CR Fferm Tŷ'n Llwyn Lôn Tŷ'n Llwyn, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4DY
Addasau adeilad allanol yn uned gwyliau Trafodwyd y cais yma hefyd cyn methu dod i benderfyniad i gefnogi na gwrthod
Tra bod yn haws cefnogi addasu adeiladau yn unedau gwyliau yn hytrach na tai gofynwyd a fyddai caniatau y cais yma sydd gan unigolyn sydd ddim yn ffermio yn gwthio cwota unedau gwyliau yn yr ardal ar drael efallai gwrthod ceisiadau gan ffermwyr yn y dyfodol sy'n cael eu cymell i arall-gyfeirio oherwydd bod y cwota wedi ei gyrraedd
**Clerc i holi am fwy o fanylion**

**8. Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **Ethol Is-Gadeirydd** Cytunwyd gohirio ethol tan Mis Medi gan fod eto rai wedi anfon eu ymddheuriadau a bod gennym bellach 3 sedd wag
- **Polisiau** Neithiwr cadarnhawyd fod y - Rheolau sefydlog – Cod Ymddygiad – Polisi Iaith a Rheolau Ariannol wedi eu cyfieithu eisioes ond bod angen eu adolygu Mae angen cyfieithu ag adolygu gweddill ein polisiau a chreu o'r newydd Polisi Cwynion a Iechyd a Diogelwch
  **I B C i edrych drwyddynt cyn eu cyflwyno i'w mabwysiadu gan y Cyngor Llawn**

**Nodwyd bod angen cyllido ar gyfer cyfieithu gwaith ar y wefan sy'n hanesyddol yn uniaith gymraeg Mae'n bosib bydd angen gwneud hynny dros gyfnod o fwy na blwyddyn**

- **Rhyddhau Gwybodaeth /F O I**

Nid yw'r mater yma wedi dod i ben ond mae cais i sefydlu rhai i wneud archwyliad mewnnol (internal review) o sut mae'r Cyngor wedi ymateb i'r cais yma hyd yma wedi ei dderbyn

Cytunwyd i'r Cadeirydd ymgymeryd a'r dasg honno a'r Cyng C W Owen gydag o

- **Ymgynghoriad Sustem bleidleisio / Consultation voting system**

Cyngor Gwynedd drwy'r Clerc wedi anfon gwybodaeth ynglyn a sustem bleidleisio wahanol ar gyfer etholiadau lleol nesaf 2027 **– Bydd cyfle i drafod hyn yn ein cyfarfod nesaf ar y 12fed o Fedi**

- **Seddi gwag** **Ward Glasinfryn x 2 a Faenol**

Angen datgan fod gennym y seddi gweigion ar ein gwefan at ddiwedd Awst fel y gallwn gobeithio gyfethol yn Mis Medi-Hydref

- **Yswiriant** **Schedule**

Yswiriant Cyngor Pentir bellach yn cynnwys adeilad Canolfan Penrhosgarnedd yn unol a'r cyfarwyddyd cyfreithiol gafwyd gan ein cyfreithiwr ac amharodrwydd y pwyllgor i gynnwys enw Cyngor Pentir a Cyngor Gwynedd yn eu polisi yswiriant nhw
Mynegodd Cyng Joyce ei fod o'r farn fod y Cyngor wedi gor-wario am yswiriant

- **Capel y Fynwent** **Amcanbris 2 yn gywir**

2 Amcanbris bellach wedi ei dderbyn a'r Clerc wedi holi os oedd yr ail-bris wedi sylweddoli trwch oedd angen ei godi i ddod i lefel y teils Y Cwmni – Ross Hughes - wedi cadarnhau eu bod yn ymwybodol ag mae eu pris yn cynnwys cwblhau y gwaith i'r lefel briodol
**Clerc i gysylltu yn ol hefo'r Cwmni i gynnig y gwaith iddynt ar ol dod i gytundeb ar y lliw a'r patrwm**

- **Calendr 2024-25 Cyngor Pentir** **Cyflwyno**

**Oherwydd arhosiad ysbyty 'doedd y llawlyfr heb ei gwblhau.Gobeithio ei gwblhau erbyn Mis Medi**

- **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol** **Trwydded a'r Maes Parcio**

Cyngor Gwynedd wedi penodi contracwr i gario'r gwaith o addasu a diogelu y maes parcio ar gyfer dechrau tymor yr Hydref ac yn cychwyn ar y gwaith mor fuan a phosib dros y Gwyliau Ysgol
Nododd Cyng L A James bod ei phartner ar adegau yn gwneud gwaith cario i'r Contractwr llwyddianus Gan mae Cyngor Gwynedd yn hytrach na Cyngor Pentir oedd wedi gosod y gwaith nid oedd yn reidrwydd arni i ddatgan buddiant

**9. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng D Jones Morris** **Chwyn ar ochr ffyrdd**

Clerc i gysylltu a gwynedd i holi os yw'n bosib unai eu chwystrellu neu eu tynnu gan y Tim Tacluso

**Biniau sbwriel**

Tra bod swyddog wedi ymweld a'r ddau safle tydi yr un o'r biniau wedi eu gosod
**Clerc i holi eto**

**Cyng I Ellis** **Llwybr Llesiant**

Drwy hap a damwain yn unig daethpwyd i ddarganfod na fydd Croesfan wrth y siop yn unol a'r cynlluniau gwreiddiol; a hynny oherwydd fod un wedi gwrthwynebu. Mae'r Cadeirydd wedi cysylltu a'r Swyddog traffig ac wedi ei wahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor ar y 12fed o Fedi

**Goleuadau nadolig**

Rhifau y polion wedi eu anfon at adran goleuadau stryd ond dim ymateb wedi ei dderbyn hyd yma
**Unwaith daw cadarnhad bod y polion dan sylw yn addas argymhellwyd i'r Clerc symud ymlaen i archebu'r goleuadau fel y gall y gosod cyswllt a'r goleuadau gael ei wneud hefo ei gilydd**

**Daeth y Cyfarfod i ben am 9.20**